# Polisi Mwy Abl a Thalentog

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CRC) yn ganolog i  gynlluniau, polisïau, arfer ac ethos ein hysgol. Fel Ysgol sy'n Parchu Hawliau rydym yn addysgu am hawliau plant a hefyd yn modelu hawliau a pharch ym mhob perthynas - yn gysylltiedig ag Erthygl 19 (y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn)

# DISGYBLION MWY ABL A THALENTOG

**<u>Diffiniad</u>: Plant sydd angen mwy o gyfle i gyfoethogi ac ymestyn eu galluoedd nag a ddarperir i'r rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae'r term yn cwmpasu disgyblion sydd yn fwy galluog ym mhob rhan o'r cwricwlwm yn ogystal â'r rhai sy'n dangos talent mewn un maes penodol neu fwy.**

Cyfyngir y cysyniad arferol o 'Mwy Abl a Thalentog' yn ôl seicoleg addysg i ganran llawer llai o blant - o bosibl mor isel â 2%. Mae'n rhaid felly ystyried y ffigwr 20% fel un sy'n gorfod cynnwys y disgyblion hynny a ddynodwyd yn flaenorol fel rhai disglair/galluog ac nid oes angen sylw arbennig ar lawer o'r plant hyn yn y cwricwlwm eang, cytbwys a gwahaniaethol a ddarperir gan YGG Pontybrenin.

Gellir gweld llawer o'r polisi hwn felly fel un sy'n benodol berthnasol i'r 2% uchaf o'r boblogaeth disgyblion ysgol a'u rhieni a'u hathrawon. Gellir defnyddio'r meini prawf canlynol i wahaniaethu rhwng y plentyn disglair/galluog â'r plentyn gwirioneddol ddawnus neu dalentog:

| Plentyn Disglair | Plentyn Mwy Abl a Thalentog |
|---|---|
| Yn ymddiddori | Yn chwilfrydig iawn |
| Gyda syniadau da fel arfer | Gyda syniadau da bob amser ac weithiau syniadau ochrol a all ymddangos ar y dechrau i fod yn rhai dwl. |
| Yn gwybod y rhan fwyaf o'r atebion | Yn gwybod y rhan fwyaf o'r atebion ac yn dechrau gofyn cwestiynau |
| Yn ateb cwestiynau yn briodol | Yn gofyn cwestiynau ond yna'n dechrau ymhelaethu |
| Angen ailadrodd mynych ar gyfer meistroli sgil | Dim ond un neu ddau ailadrodd sydd eu hangen ar gyfer meistroli |
| Deall syniadau | Adeiladu haniaethau |
| Mwynhau cwmni cyfoedion | Yn fwy hoff o gwmni oedolion |
| Deall ystyro | Tynnu casgliadau |
| Copio'n gywir | Creu gwaith a dyluniadau gwreiddiol |
| Technegydd/gweithredydd | Creuwr/dyfeisiwr |
| Amsugno gwybodaeth | Trin gwybodaeth |
| Yn gallu cofio'n dda | Yn gallu cofio'n dda a thybio yn ddeallus |
| Gwneud sylwadau ar weld sut mae gwneud | Yn eithriadol o graff |
| Yn fodlon gyda'r gwaith a wna | Yn hunanfeirniadol iawn ac yn gosod safonau uchel eithriadol. |
| Yn mwynhau problemau uniongyrchol dilyniannol | Ffynnu ar gymhlethdod |

**Mae’r disgybl Mwy Abl a Thalentog yn:**

- gofyn llawer o gwestiynau ac yn dysgu yn gyflymach a haws nag eraill.
- meddu ar gôf cyflym iawn a phwerau galw i gôf da
- dangos gallu da i arsylwi a rhesymu, a gweld cydberthnasau a chyffredinoli o’r ychydig o ffeithiau a roddwyd.
- meddyliwr dychmygus neu greadigol.
- gweithiwr annibynnol da iawn.
- chwilfrydig iawn ac yn gallu canolbwyntio am gyfnodau hir ar bynciau o ddiddordeb.
- yn dda wrth weld, gwneud, darlunio, adeiladu neu ddylunio er yn wael am siarad, gwrando ac ysgrifennu, h.y. maent yn ddawnus gyda sgiliau ‘gweledol-ofodol’ a gallant ddangos dyfeisgarwch mecanyddol ac artistig eithriadol. Mae cydlyniad llygad a llaw dda yn arwydd o’r ystod hon o sgiliau.
- mwynhau datrys problemau, yn aml yn hepgor y cymalau canolraddol mewn dadl ac yn gwneud cydgysylltiadau gwreiddiol.
- ymhell ar y blaen mewn mathemateg, yn arbennig datrys problemau yn meddu dychymyg anghyffredin a all gael ei amlygu yn y modd y bydd yn ymateb i gwestiynau.
- meddu ar gryfder ewyllys a phwrpas rhyfeddol
- meddu ar ystod eang o ddiddordebau a gwybodaeth gyffredinol a geirfa dda iawn ac yn aml y tu hwnt i’r hyn a ddisgwylir o ran ei oedran.
- dangos teimladau a barn gref
- gall feddu ar synnwyr digrifwch da ond treiddgar neu hynod.
- gosod safonau uchel ac mae’n berffeithydd ac yn obsesiynol ynglŷn â chywirdeb.
- dilyn diddordebau (a gysylltir yn aml â phlant hŷn neu oedolion) gyda brwdfrydedd mawr sydd weithiau yn ymylu ar fod yn obsesiwn.
- yn well ganddo/ganddi yn aml gemau a gysylltir â phlant hŷn neu oedolion.
- yn aml bydd am dreulio amser gyda phlant hŷn a hefyd oedolion.
- yn ddawnus yn foesol, yn gymdeithasol ac o ran moeseg gyda synnwyr aeddfed o oblygiadau gweithredoedd neu sefyllfaoedd. Gall hyn amlygu ei hun fel lefel uchel o sensitifrwydd ac empathi tuag at eraill.
- gall ymddangos yn drahaus iawn ac eto yn sensitif i’r hyn a wêl fel cael ei roi’n ei le .
- ymddangos yn allblyg neu'n fewnblyg o fewn grŵp cyfoedion
- gallu dangos nodweddion arweinydd.

**Ein hamcan yw:**

- Annog pob disgybl i adnabod a chyrraedd ei wir botensial, h.y. bod ag agwedd gadarnhaol at ddysgu gydol oes ac yn gallu dangos menter.
- Er mwyn cyrraedd y nod hwn mae angen adnabod gwir natur a photensial plentyn Mwy Abl a Thalentog cyn y gellir gwneud darpariaeth briodol. Fodd bynnag, nid yw'n hawdd adnabod pob plentyn dawnus a thalentog. At ddibenion eu hadnabod a'u cynorthwyo gellir grwpio disgyblion mwy abl a thalentog fel a ganlyn : -

- Yn ddawnus yn gyffredinol - yn rhagori ym mhopeth a wna ac yn mwynhau eu llwyddiant - hawdd eu hadnabod.
- Talentog yn meddu ar allu arbennig mewn un maes, e.e. mathemateg neu wyddoniaeth, yn gymharol hawdd eu hadnabod gan eu bod hefyd yn tueddu i fod yn alluog a llwyddiannus yn academaidd.
- Dawnus gwrthryfelgar - yn meddu ar ystod o broblemau ymddygiad sydd i'w gweld fel ymddygiad aflonydd a thangyflawni - yn aml fe'u dynodir yn anghywir fel bod yn hollol aflonyddr a /neu o allu isel.
- Creadigol ddawnus, meddylwyr dwys sy'n aml yn amhoblogaidd gyda'u cyfoedion oherwydd y canfyddiad o ddiffyg sgiliau cymdeithasol a nodweddion cyffredin yn aml fe'u dynodir yn anghywir fel rhai aflonydd.
- Cudd-ddawnus - tangyflawnwyr sydd ddim am fod yn wahanol i'w cyfoedion ac felly ymdoddant i'w grŵp cyfoedion - yn aml fe'u dynodir yn anghywir fel rhai sy'n tangyflawni neu yn syml yn rhai llai galluog.

Mae ffactorau amgylcheddol ac etifeddol yn dylanwadu ar fynegiant gallu a chyflawniad uchel. Gyda gwir gefnogaeth rhieni a'r ysgol, bydd y rhan fwyaf o blant yn datblygu hunan hyder a byddant yn ymgyrraedd i gyflawni eu potensial cynhenid.

Nodau'r ysgol yw:

- sicrhau bod polisi'r ysgol yn cynnwys ffocws ar anghenion plant Mwy Abl a Thalentog
- datblygu strategaethau ysgol gyfan i adnabod, addysgu a chefnogi'r Mwy Abl a Thalentog er mwyn meithrin eu gallu ar gyfer dysgu a meddwl yn greadigol heb gyfyngiad.
- sicrhau bod y dulliau hyn yn cael eu defnyddio, neu eu haddasu ym mhob dosbarth/maes pwnc
- sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau clir ar gyfer plant Mwy Abl a Thalentog oddi fewn i'r ysgol a'r ALl gan roi sylw arbennig i'r:

i. Uwch Dîm Rheoli (UDRh);

ii. Athrawon dynodedig sydd â chyfrifoldeb penodol am y disgyblion Mwy Abl a Thalentog, e.e y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol;

iii. Llywodraethwr dynodedig sydd â chyfrifoldeb penodol am y disgyblion Mwy

Abl a Thalentog, sef Jonathan Williams, aelod y corff llywodraethol sydd â chyfrifoldeb dros ADY;

**Yr Angen am Adnabod yn Gynnar:**

Mae gan blant dawnus awch mawr am wybodaeth ac mae'n hanfodol adnabod yr angen hwn cyn gynted â phosibl fel bod rhieni ac athrawon yn gallu rhoi'r lefel o gefnogaeth sydd ei hangen arnynt er mwyn iddynt allu datblygu eu talentau. Gall gyfeirio, asesu a dynodi disgyblion Mwy Abl a Thalentog ddod o amryw o ffynonellau, e.e.

- cais gan athrawon yn dilyn arsylwadau, asesiadau neu'r defnydd o restrau gwirio;
- cais gan y disgybl ei hun;
- cais gan riant;
- cais grŵp cyfoedion;
- cais rheolwyr;
- cais gan Feddyg Teulu;
- yn dilyn gwybodaeth o ysgol flaenorol (e.e. ysgol feithrin);
- yn dilyn cyflawniad profion cenedlaethol;
- yn dilyn profion diagnostig;
- yn dilyn cyfweliadau, holiaduron unigol;
- yn dilyn tystiolaeth o weithgareddau y tu allan i'r ysgol;
- yn dilyn tracio ac arsylwi disgyblion unigol.

Fel llawer o blant eraill, gall plant Mwy Abl a Thalentog yn aml fethu cyflawni eu potensial ac o ganlyniad gael llawer o anawsterau. Mae dynodiad, asesiad a darpariaeth gynnar felly yn bwysig iawn ar gyfer unrhyw blentyn abl/talentog am y rhesymau canlynol:

Gall leihau'r anawsterau y gellir dod ar eu traws pan fydd ymyrraeth a darpariaeth yn digwydd. Yn nodweddiadol dyma yw'r anawsterau hyn:

- hyder a hunan barch isel;
- lefel uchel o rwystredigaeth a hunan feio;
- sgiliau astudio gwael;
- ynysu cymdeithasol a chredu eu bod wedi'u camddeall ac yn wahanol i'w cyfoedion;
- osgoi cyfundrefnau academaidd;
- problemau gyda chanolbwyntio;
- byw yn eu byd bach eu hunain.

Mae'r broses yn dechrau drwy gydgysylltu gyda'r Meithrinfeydd preifat a'r Cylchoedd Meithrin lleol sy'n ein bwydo. Mae'r athrawes Feithrin yn ymweld â'r Meithrinfeydd a'r Cylchoedd Meithrin sy'n ein bwydo i gyfarfod â darpar ddisgyblion ac athrawon yn ystod y tymor cyn y byddant yn trosglwyddo i'r ysgol gynradd.

Yn ystod y tymor cyntaf yn yr ysgol caiff pob disgybl derbyn ei asesu. Caiff dynodiad disgyblion sydd angen cefnogaeth ei seilio'n bennaf ar ganlyniadau'r aesiadau hyn. Hefyd ystyrir ceisiadau penodol am gefnogaeth o wahanol ffynonellau, yn cynnwys rhieni, athrawon ac ati.

**Cyfoethogi ac Ehangu**

- **Cyfoethogi :** Sicrhau bod cynnwys y cwricwlwm yn gyfoethog o ran ansawdd
- **Ehangu :** Sicrhau bod cynnwys y cwricwlwm yn ymestyn ac ehangu dealltwriaeth a phrofiad**.**

Bydd athrawon yn sicrhau bod disgyblion Mwy Abl a Thalentog yn cael eu herio'n briodol, yn addasu maint ac /neu ehangder a chynnwys y tasgau a gyflwynir iddynt. Caiff y disgyblion gyfle i ddarllen, ysgrifennu a siarad ynglŷn â'u gwaith ac i gyfranogi mewn trafodaethau a/neu i weithio gyda disgyblion eraill.

Bydd athrawon yn gosod targedau ac yn tracio cynnydd mewn ymgynghoriad â'r CADY gan ddefnyddio amrediad o arsylwadau/ profion mewnol a statudol.

Bydd rhai disgyblion yn derbyn cefnogaeth yn yr ystafell ddosbarth ac fe gaiff nifer fechan eu tynnu allan ar gyfer mwy o gymorth mewn ardal arall e.e iaith a mathemateg.

**Y Cwricwlwm**

Nid oes cwricwlwm manwl, safonol ar gyfer plant Mwy Abl a Thalentog, oherwydd bod eu hanghenion yn unigol iawn. Mae'r pwyslais ar ddatblygu gwaith wedi'i seilio ar dargedau er mwyn:

- diwallu anghenion plant unigol;
- adeiladu ar eu cryfderau unigol;
- annog datblygiad mewn meysydd y mae angen cefnogaeth arnynt.

Ar gyfer pob disgybl mae cwricwlwm yr ysgol wedi ei strwythuro'n dda, ac yn ymgorffori gwahaniaethu yn sicrhau amgylchedd y gallant ffynnu ynddo. Fodd bynnag, mae'n hollbwysig cofio y gall plant mwy abl a thalentog fod sawl blwyddyn ar y blaen i'w cyfoedion yn academaidd ond yn dal i fod yn debyg i'w hoedran cronolegol yn emosiynol a chymdeithasol.

**Holiaduron**

Mae llais y plentyn yn hollbwysig. Defnyddir holiaduron er mwyn hunan arfarnu a chanfod gwybodaeth am sut mae'r plentyn yn dysgu. Mae plant yn ymelwa wrth berchnogi rheolaeth dros eu haddysg. Mae'r athrawon yn ymelwa trwy ddysgu am y ffordd mae plant yn hoffi dysgu.

**Pontio**

Rydym bob amser yn sicrhau bod y disgyblion sydd ar gofrestr Mwy Abl a Thalentog yn hysbys i ysgolion eraill y gallant drosglwyddo iddynt. Trafodir gyda chydlynydd pontio Ysgol Gyfun Gŵyr gan nodi cryfderau'r plentyn Mwy Abl a Thalentog ar gyfer hwyluso trosglwyddo effeithiol a chysondeb o ran darpariaeth.

**Rôl y Llywodraethwyr**

- Sicrhau bod ffocws ar y plant Mwy Abl a Thalentog yn yr ysgol.
- Sicrhau trosolwg a chyfrifoldeb am ddarparu ar gyfer plant Mwy Abl a Thalentog o fewn yr ysgol ac i sicrhau adnoddau digonol.
- Mae penodi llywodraethwr i gymryd diddordeb arbennig mewn plant Mwy Abl a Thalentog yn dangos y flaenoriaeth a roddir gan y Corff Llywodraethol i'r maes hwn.
- Y llywodraethwr sy'n gyfrifol am y plant Mwy Abl a Thalentog yn ein hysgol ni yw Mr Jonathan Williams.
- Mynychu hyfforddiant ar addysg plant Mwy Abl a Thalentog.

**Rôl y Pennaeth/Uwch Dîm Rheoli**

- Cynllunio a rheoli'n effeithiol ymagwedd tuag ar ragoriaeth drefniadol h.y. sicrhau bod amcanion dynodedig yn cael eu cyrraedd yn erbyn paramedrau cytunedig ar ansawdd, amserlen a chost. Dylai'r amcanion hyn fynd i'r afael ag anghenion yr unigolyn a'r ysgol drwy osod a chyflawni targedau penodol yng nghynllun datblygu'r ysgol.
- Dyrannu cyfran o'r gyllideb i addysgu a dysgu disgyblion Mwy Abl a Thalentog.
- Cynorthwyo i fapio ac archwilio sgiliau a rolau yn yr ysgol ac yna i ddarparu HMS priodol i staff a monitro perfformiad.
- Adolygu'r cwricwlwm yn flynyddol fel ei fod yn cadw parhad, datblygiad, ehangder a chydbwysedd.
- Bod â rôl yn strategol mewn hyrwyddo cydweithrediad a chydweithio rhwng adrannau ac ar draws y cwricwlwm cyfan o ran plant Mwy Abl a Thalentog.
- Sicrhau bod disgyblion dawnus a thalentog yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd Staff/Gwella Ysgol a bod arfer gorau a phrofiadau yn cael eu rhannu ymhlith staff.
- Cychwyn polisi ysgol gyfan o wobrau a chydnabyddiaeth am waith a/neu gynnydd eithriadol. Dylai cydnabyddiaeth gyhoeddus o waith disgyblion Mwy Abl a Thalentog ddigwydd gan gofio bod rhai yn swil ac yn fewnblyg iawn ac y gellid gwneud niwed mawr i'w hunan hyder os oes rhaid iddynt fynd i'r blaen i dderbyn gwobr neu glod.
- Gwella dealltwriaeth rhieni o sut y gallent gefnogi addysg eu plentyn e.e trwy gynnal nosweithau Hybu Sgiliau.

**Rôl yr Athro**

- Mae' n rhaid i bob aelod o'r staff fod yn ymrwymedig i wella'r ddarpariaeth ar gyfer plant Mwy Abl a Thalentog – ac yn bwysicach na dim, mae'n rhaid i'r holl staff addysgu gefnogi ei gilydd ac yn eu tro, dderbyn cefnogaeth y UDRh.

- Cynorthwyo i ddynodi a chyfeirio plant sy'n Fwy Abl a Thalentog ac sydd angen cefnogaeth i'r Arweinydd Maes Dysgu a Phrofiad, Arweinydd Pwnc, Pennaeth Adran a/neu CADY.
- Asesu anghenion datblygu personol mewn perthynas â datblygiad proffesiynol.
- Darparu amrywiaeth o gyfleoedd a dulliau dysgu e.e dysgu dosbarth cyfan / dysgu mewn grŵp, dysgu un wrth un, dysgu ar safle arall e.e y warchodfa.
- Mae hi'n bwysig darparu gweithgareddau sydd yn defnyddio strategaethau sgiliau meddwl uwch e.e cynllunio cwestiynau agored heriol.
- Gosod tasgau sydd yn ymwneud â datrys problemau ac ymchwil trylwyr.
- Caniatau plant MAT i hepgor ymarfer y sgiliau sylfaenol y maent wedi'u meistroli er mwyn canolbwyntio ar ddysgu cyfoethocach ac ehangach.
- Hyfforddiant systematig o sgiliau darllen uwch, sgiliau ymchwil ac amrediad o sgiliau recordio/cofnodi.
- Darparu adnoddau sydd yn gofyn am sgiliau darllen uwch a sgiliau ymchwil. Mae hyn yn rhan annatod o addysg ddwieithog. Mae sgiliau megis trawsieithu yn cyfoethogi eu sgiliau darllen a dealltwriaeth.
- Cyfranogi mewn gwneud addysgu yn fwy effeithiol o ran cynnwys pwnc a dull addysgu a thrwy hynny gyfoethogi addysg y disgybl.
- Hwyluso dysgu drwy ddefnyddio amrywiaeth o weithgareddau priodol ac ystyrlon sy'n cynnwys disgyblion yn y broses ddysgu.
- Helpu disgyblion i wneud synnwyr, a dehongli gwybodaeth a digwyddiadau er mwyn prosesu'r profiad a chreu gwybodaeth.
- Gosod nodau clir a'u cyfathrebu i bob disgybl ar ddechrau'r wers.
- Sicrhau bod gan blant Mwy Abl a Thalentog fynediad at y cwricwlwm drwy ddarparu'r sefyllfa lle bydd profiad pob disgybl o gynnwys a sgiliau yn cyfateb i'w raddfa dysgu ef/hi ac y defnyddir deunyddiau a strategaethau dysgu amgen, gwahaniaethol.
- Trafod targedau a strategaethau gyda'r plentyn sydd wedi'i adanabod fel plentyn MATh.

**Rôl y Rhieni/Gwarchodwyr –**

- Cynghori a rhannu syniadau / strategaethau gyda'r rhieni fel eu bod yn gallu cefnogi addysg y plentyn yn fwy effeithiol.
- Sicrhau cyfathrebu effeithiol rhwng y rhieni â'r athro er mwyn rhannu gwybodaeth am dalentau neu ddiddordebau arbennig y plentyn.

## DOGFENNAU DEFNYDDIOL

- Guidance for Schools on Provision for More Able and Talented Learners: October 2007 (Gwasanaeth Ysgolion a Dysgu Gydol Oes, Caerdydd)
- Developing higher-order literacy skills across the curriculum (Llywodraeth Cynulliad Cymru)
- Supporting learner's higher-order literacy skills

(Llywodraeth Cynulliad Cymru)

- How to develop thinking and assessment for learning in the classroom (Llywodraeth Cynulliad Cymru)

- Why develop thinking and assessment for learning in the classroom? (Llywodraeth Cynulliad Cymru)

Adolygir y polisi yn gyson er mwyn sicrhau fod y polisi yn ateb anghenion a gofynion disgyblion ein hysgol.

| **Mabwysiadu'r Polisi** |
|---|
| Dyddiad Adolygu gan y Corff Llywodraethu: 27/6/23 |
| Dyddiad cadarnhau a chymeradwyo gan y Corff Llywodraethu<br><br>llawn: 27/6/23 |
| Llofnod Cadeirydd y Llywodraethwyr: |